**YMATEB / SYLWADAU A CHYNLLUN GWEITHREDU YR ADRAN GYLLID**

Mae uwch reolaeth y gwasanaeth budd-dal yn derbyn canfyddiadau SAC ac yn ystyried fod eu casgliadau yn deg.

Ynglŷn â 4 cynnig SAC ar gyfer gwella'r gwasanaeth –

| **A yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer darparu ei Wasanaethau Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Cyngor yn debygol o arwain at welliant?** | | **Ymateb Cyngor Gwynedd** |
|---|---|---|
| **C1** | Sicrhau bod trefniadau cynllunio onlyniaeth effeithiol ar waith ar gyfer swydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd a Hyfforddiant. | Oherwydd deddfwriaeth Diwygio Lles Llywodraeth San Steffan, bydd her gynyddol i'r gwasanaeth gadw a denu staff addas, ond cymerir camau priodol parthed swyddi allweddol. |
| **C2** | Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau parhad busnes a nodir yn y cynllun adfer ar ôl trychineb. | Cytuno a gweithrediad wedi'i gynllunio. |
| **C3** | Sicrhau nad yw'r broses o drosglwyddo gweithgareddau hyrwyddo budd-dal o'r Cyngor i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cael effaith negyddol ar y broses o ymgysylltu â dinasyddion. | Mae CAB wedi penodi swyddog hyrwyddo budd-daliadau gyda'r arian Ll.C. a drosglwyddwyd iddynt, ac mae'r swyddog yma eisoes mewn cyswllt gyda swyddogion budd-dal y Cyngor, yn sefydlu protocolau ar gyfer cyfeirio achosion, ayb. |
| **C4** | Ystyried cyflwyno proses ymgynghori neu arolwg i werthuso barn cwsmeriaid am y gwasanaeth. | Mae'r Cyngor yn gryf o blaid yr egwyddor cyffredinol o ymgynghori gyda chwsmeriaid. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y byddai'n amserol i wneud hynny mor agos i'r newidiadau cenedlaethol mwyaf radical erioed i'r gwasanaeth budd-dal (torri'r lefel o lwfans rhent a ganiateir, cyflwyno'r cynllun cymorth lleol ar gyfer treth cyngor, ac allfudo hawliadau budd-dal tai y Cyngor i gyfundrefn Credyd Cynhwysol y 'DWP' eu hunain). |